tafod elái

www.tafelai.net

Mai 2002 **Pris 40c** **Rhif 167**

ERGYD I'R ARDAL

Cyhoeddwyd gan Gwmni CPL fod Gwaith Golosg y Cwm, Beddau, yn cau yn yr haf. Bydd 150 o bobl yn colli eu swyddi yn sgil y penderfyniad a achoswyd gan leihad yn y galw am y golosg o safon uchel a gynhyrchir yn y Cwm a mewnforion rhad o dramor.

Rhagor ar dudalen 16.

Cefnogwch yr Eisteddfod

O'r diwedd mae'r disgwyl a'r paratoi yn dod i ben ac fe gynhelir Eisteddod yr Urdd yng Nghaerdydd o'r 3ydd i'r 8ed o fis Mehefin.

Dymunwn pob llwyddiant i bawb o'r ardal sy'n cystadlu. Hefyd i bawb fydd yn helpu i gynnal yr ŵyl. Mae angen llu o stiwardiad gwirfoddol i gynnal gŵyl enfawr a llwyddiannus ac mae'n sicr y byddai swyddfa'r eisteddod yn hoffi clywed gennych os oes amser sbar yn ystod wythnos gwyliau Mehefin.

Cornel Newydd

Diolch i Colin Murphy, Meisgyn, am gynnig paratoi cyfres o groeseiriau i Tafod Elái.

Mae'r gyntaf o'r croeseiriau i'w weld ar dudalen 19 o'r rhifyn hwn ac yn ôl Colin mae o'r safon syml. Ceir cliwiau o un neu ddau air yn unig a rhaid meddwl am un gair arall sy'n golygu fwy neu lai yr un peth.

Ewch ati i gwblhau'r dasg ac fe fydd gwobr i'r enillydd cyntaf o'r het.

AGOR ARCHFARCHNAD AR NEWYDD WEDD

Pan agorwyd archfarchnad y Co-op yn Ffynnon Taf ar ei newydd wedd derbyniodd Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth siec gwerth £100.

Y plant dorrodd y rhuban yn y seremoni agoriadol ar Fawrth 28, Dydd Iau Cablyd.

"Ry'n ni'n gobeithio y bydd y cwsmeriaid yn hoffi'r drefn newydd, fodern ac y gallwn ddarparu ar gyfer anghenion siopa'r gymuned i gyd," meddai Mark Thomas, y rheolwr.

Gwariwyd £100,000 ar yr adnewyddu.

CYNGHERDDAU EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD

Nos Lun, 3 Mehefin i Nos Fercher, 5 Mehefin, sioe gerdd gynradd, Syniad Sam yn Neuadd Dewi Sant.

Nos Lun a Nos Fawrth, 3 a 4 Mehefin, sioe gerdd uwchradd yn Theatre Stanwell, Penarth

Nos Fercher, 5 Mehefin ym Mhafiliwn yr Eisteddfod—cyngerdd band jazz a chorau ieuenctid.

Nos Iau, 6 Mehefin ym mhafiliwn yr Eisteddfod—noson y sioeau gyda Fflur Wyn, Sian Cothi, Steffan Rhys Williams a llawer mwy!

Nos Sul, 9 Mehefin, yng Nghapel Tabernacl - Cymanfa Ganu.

Tocynnau: 029 2080 3360.
caerdydd2002@urdd.org

Cofiwch

Parti Ponty

6 a 7 Gorffennaf

tafodelái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Mehefin 2002
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
22 Mai 2002

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT…
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Rhieni yn Parhau i Frwydro

Heini Gruffudd, cadeirydd Rhag yn cyflwyno'r siaradwyr gwadd - Aelodau'r Cynulliad, Michael German, David Davies ac Owen John Thomas

Daeth yn amlwg yng nghynhadledd Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn Ysgol Rhydfelen ar ddydd Sadwrn olaf mis Ebrill fod problemau di-ri gan rieni sydd am i'w plant gael addysg cyfrwng Gymraeg. Mae cyfyngyiadau ar niferoedd mewn dosbarthiadau meithrin a diffyg darpariaeth lleol yn bynciau llosg mewn sawl ardal yn Ne Cymru.

Erbyn hyn mae 1 o bob 8 o blant Caerdydd yn cael addysg Gymraeg ond mae angen nifer o ysgolion cymunedol ychwanegol i ateb y galw. Er fod canran uwch yn cael addysg Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf nid oes llawer o gynydd yn y ddarpariaeth wedi bod yn ddiweddar ac araf yw'r cyngor i ddarparu ysgolion Cymraeg yn Aberpennar a Meisgyn.

Y gair mawr a ddefnyddiwyd oedd 'argaeledd' - sef gwneud addysg Gymraeg ar gael i bawb ac o fewn cyrraedd. Roedd cynyddu maint yr ysgolion presennol gyda 400—500 o blant ddim yn ateb parhaol, teimlai'r rhieni fod angen i'r ysgolion fod yn rhai cymunedol Cymraeg.

Roedd y cyfrifoldeb yn bendant ar y cynghorau lleol i ddarparu addysg Gymraeg i bawb ac roedd y gynhadledd am i'r Cynulliad sicrhau fod hyn yn cael ei weithredu.

Felly mae digon o waith i'w wneud o hyd ac mae rhoi cefnogaeth i fudiad Rhag yn bwysig i sicrhau fod yr iaith yn ail-sefydlu ar seiliau cadarn yn yr ardal hon.

CLWB Y DWRLYN

Prynhawn o Hwyl i'r Teulu
yn Ysgol Creigiau
2pm Dydd Sadwrn, 11 Mai

Helfa Drysor
Nos Wener, 14 Mehefin

Ffôn 029 20891426

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r Cylch

Y Cynulliad ar Waith
A Noson yn y bae

Dydd Mawrth, 21 Mai

Ar y Gamlas yn Aberhonddu
Dydd Sadwrn, 29 Mehefin

Ffoniwch
John Llewellyn Thomas 01443 218077

Oh La! La!
Parti'r Efail

Mae gwaelodion Ffrainc bellach yn gwybod am rinweddau cerddorol Parti'r Efail – ac o bosib un neu ddau o'u gwendidau! Teithiodd y parti o feibion i ganu yn ardal Beziers ym mhriodas un o'u haelodau, Huw Wade, oedd yn priodi, Anne, merch o'r ardal honno.

Yn arbennig ar gyfer yr achlysur roedd y bois wedi sicrhau trefniant newydd gan Robat Arwyn o'i waith, "Emyn Priodas" ac fe ganwyd honno dan arweiniad Menna Thomas, fel rhan o'r gwasanaeth ym mhentre bychan Vendres, ger Bezier, ddydd Sadwrn, Ebrill 6. Cafodd y priodfab, Huw, ei esgusodi o fod ymhlith y cantorion am y tro, ond nid felly y bu hi i aelod arall o'r teulu cerddorol hwn - ei dad, Mike Wade. Nid pawb all ddweud ei fod wedi cael galwad i adael ystlys ei wraig, yn rhes ffrynt y gynulleidfa, i ymuno mewn cyflwyniad cerddorol i'w fab a'i ferch yng nghyfraith! I aelodau Côr Godre'r Garth mae'r tri'n wynebau a lleisiau cyfarwydd – Mike, Win a Huw, y tri'n ffyddloniaid y côr cymysg.

Bu Anne, y briodferch, yn gweithredu fel athrawes a darlithwraig yn ardal Penybont-ar-Ogwr ers peth amser ac mae'n siarad Cymraeg erbyn hyn. Mae ganddi'n sicr fwy o afael ar yr iaith nag sydd gan rai o Barti'r Efail o'r Ffrangeg! O winllannoedd ei thad y daeth y gwin i'r byrddau ac yn ôl pob golwg fe gafodd e gynhaeaf neu ddau go toreithiog! Roedd yr arlwy a ddarparwyd ar y byrddau yn sicr yn wledd i'r llygaid yn ogystal â'r cylla. Yn sicr ni welwyd y fath gyflwyniad artistig ar ôl cyngherddau eraill Parti'r Efail – ond mae croeso i unrhyw gymdeithas roi cynnig arni!

Diolch i ryfel prisiau y cwmnïau hedfan, roedd yr aelodau wedi sicrhau rhai o fargeinion gorau Ryanair i gyrraedd ac aros yn ardal Pezenas, lle roedd y swper priodas yn cael ei gynnal. Credir bod trigolion y dre fechan honno bellach wedi sylweddoli bod rhyw gynnwrf yn yr awel. Felly hefyd ddinas hardd Montpellier ar y noson cyn ffarwelio. Cafodd bwytai yn y ddau leoliad brofiadau cerddorol newydd!

Mae'r parti bellach a'u golygon ar Brifwyl Tyddewi ac yn ymarfer yn wythnosol yn festri'r Tabernacl, Efail Isaf.

Huw ac Anne Wade – Penybont a Pezenas

Parti'r Efail yn ymarfer yn yr eglwys yn Vendres cyn y gwasanaeth – dan arweinad Menna Thomas.

Yr arlwy cyn i'r wledd gychwyn!

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Penblwydd
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mrs Hazel Pickard ar gyrraedd dechrau degawd arall. Mae hi a'i gŵr bellach yn drigolion sefydlog yn Nhonteg ers pymtheg o flynyddoedd ac yn fawr eu diddordeb a'u consyrn am bawb a phopeth yma. Bu'n gam mawr, ar y llaw arall, i symud yma o'r hafan a'r gwreiddiau yn y Gogledd. Mae Mrs Pickard wedi gorfod dibynnu'n helaeth ar driniaethau niferus yn ysbytai'r ardal a dymunwn yn dda iddi hi, a'i gwr, o ran iechyd a hapusrwydd yn y dyfodol.

Cydymdeimlad
Estynnir ein cydymdeimlad gwresog i'r Parchedig Glyndwr Williams ar golli ei chwaer ddiwedd y gaeaf. Rhoddodd y ddynes hon fewnbwn amhrisiadwy o fewn byd addysg a Chymreictod yn enwedig pan oedd yn Bennaeth ar Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Llanelli am flynyddoedd lawer.

Gwellhad Buan
Croeso 'nol i Mrs Anneira Davies wedi derbyn yr ail glun newydd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Dymuniadau gorau ichi Anneira - dyma siawns ddelfrydol i ganolbwyntio ar yr arlunio yn enwedig, eleni hefyd, gan fod Harri wedi cymryd drosodd llawer o'r "spring cleaning"!

Croeso Adre
Hyfryd yw croesawi plant yr ardal yn ôl a dyna wnawn i Elin Prys Roberts. Llongyfarchiadau a phob hwyl iti fel athrawes yn Ysgol Ifan James o fis Medi ymlaen.

Gohebydd Newydd
Diolch yn fawr iawn i Helen Jones a fu'n ohebydd yr ardal ers 1990. Croesawn Meima Morse sy'n ceisio cael rheolaeth ar ei chyfrifiadur a'r rhyngrwyd i gofnodi'r newyddion.

Capel Salem

Da yw croesawi ein Gweinidog yn ôl wedi toriad o ddau Sul. Yn ei absenoldeb, mewn un gwasanaeth dilynon ni ar dâp, lwybr yr Iesu o Fethlehem i'r Groes wrth wrando ar ddatganiadau Geraint Gruffydd a Sue Lloyd Davies o "Teilwng yw'r Oen". Yr ail Sul cawson y cyfle i groesawi'r Parchedigion Allan Pickard a Gwilym Dafydd yn ôl atom - profiadau a oedd yn dwyn atgofion melys.

Mwynhad pur oedd prif nodwedd parti penblwydd Mrs. Meurig James ar y pedwerydd o Ebrill gyda Meurig a Gwyneth fel brenin a brenhines yn rhannu'r danteithion wrth y bwrdd ac yn arwain y sgwrsio a'r chwerthin. Arweiniwyd yr adloniant gan Mr Berwyn Davies, sydd mor llwythog ei jôcs a Siôn Corn a'i bresantau -cyn y Nadolig wrth gwrs! Wedi amrywiaeth o eitemau perthnasol ymunwyd yn llawn hwyl i ganu penillion a gafodd eu cyfansoddi'n uniongyrchol at yr achlysur arbennig hwn.

Mae'r aelodau i gyd am ddymuno iechyd gwell i Meurig a Gwyneth James ac estynnwn yr un dymuniad i Mrs Mair Hughes, Mrs Betty Tilling a Mr Norman Rowlands sydd wedi para i roi o'u gorau ar waethaf sawl hen anhwylder diflas dros y gaeaf.
I'r rhai ohonoch a dderbyniodd lythyr ar y We gan Elin Morse yn dechrau fel hyn,- "Wedi cyrraedd yn ôl o Warchodfa'r teigrod .... diddorol .... gwelais y teigr ar gefn eliffant ynghanol y jyngl..." teimlir y dylid egluro mai Elin oedd ar gefn yr eliffant ac nid y teigr! Roedd y gwres yn 42 gradd - gellir dychmygu mai'r perygl mwyaf o dan amgylchiadau o'r fath fyddai llithro bant o gefn yr eliffant!

Ffaith ddiddorol ac o falchder i'r Capel, a'r ardal, yw fod tôn a gyfansoddwyd gan gyn-godwr canu yng Nghapel Salem,- John Hughes,- wedi ei chanu yn nau wasanaeth angladdol y Fam Frenhines. Mae'n debyg fod y dôn "Cwm Rhondda" i eiriau William Williams yn ffefryn gan yr aelod hon o'r teulu brenhinol.

Da yw sylwi fod Neil Jenkins wedi mentro yn ôl yn swyddogol i'r Cae Rygbi. Efallai na ddysgodd sgiliau'r gêm oddiwrth ei gyn - athrawes, Mrs Gwyneth Hughes, ond mae lle i gredu bod ei hysbryd dygn a dyfalbarhaol, efallai wedi bod yn ddylanwad arno.

Cafodd aelodau'r Gymdeithas Gymraeg pythefnos o hoe dros y Pasg ond mae gweithgareddau'r haf wedi dechrau bellach ers canol Ebrill gydag aelodau newydd yn ein plith. Estynnwn groeso cynnes iawn i chithau i ymuno â ni. Ymunodd rhai o aelodau'r Gymdeithas â Mrs Shirley Brooks yn y Ganolfan Hamdden ganol y mis gan fod Shirley wedi trefnu parti penblwydd deugain oed i'w merch Gaynor yno. Mae Gaynor bellach a'i theulu'n byw yn Poole ond bu hi a'i brawd yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gartholwg. Pob dymuniad da ichi Gaynor.

YSGOL CASTELLAU

Eisteddfod Sir.
Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Sir yn Nhreorci.

Cafwyd llwyddiant gyda'r parti llefaru a fydd yn cynrychioli'r ysgol yng Nghaerdydd ym mis Mehefin.Daeth y côr, grŵp dawnsio disgo a dawnsio disgo unigol yn drydydd.

'Crucial Crew'
Aeth blwyddyn 6 ar ymweliad 'Crucial Crew' i Drefforest. Gwelsant nifer o weithgareddau a oedd yn ymwneud â gwahanol agweddau diogelwch yn y cartref a'r gymuned.

Pêl-droed
Aeth tim pêl-droed yr ysgol i gystadleuaeth 5 bob ochr yr Urdd ym Mharc Darren,Y Rhondda. Er chwarae'n dda colli bu'r hanes yn y diwedd.

Triawd Pres Cymreig
Ar ddiwedd y tymor diwethaf cafwyd cyngerdd gan y triawd. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwrando ar y gwahanol offerynnau. Diolch yn fawr iddynt.

NEWYDDION NEWYDD

Efallai eich bod yn adnabod gwyneb Jamie Owen o 'BBC Wales Today', ond penderfynodd y newyddiadurwr enwog newid ei ddesg stiwdio am ddesg ysgol. Ymwelodd Jamie â ddosbarth Astudiaethau'r Cyfryngau Blwyddyn 10, Ysgol Gyfun Rhydfelen cyn hanner tymor.

Dechreuodd Jamie weithio yn myd y newyddion dair ar ddeg mlynedd yn ôl. Mae wedi cael llawer o swyddi gwahanol cyn iddo ymuno a'r BBC ac roedd o'n bwriadu gweithio yn ddramataidd.

Siaradodd am nifer o bethau gan gynnwys ei swydd, triciau'r cyfryngau a gwybodaeth am rhaglenni. Dywedodd un disgybl wnaeth cymryd rhan yn y wers "Dysgais llawer o bethau newydd a fydd yn fy helpu yn fy arholiad TGAU."

Efallai ddylai Jamie orffen ei swydd yn y BBC i fod yn athro!

Gan Emma Jones

O BLAID, YN ERBYN

Ar yr ugeinfed o Fawrth 2002 ymwelodd aelodau'r Chweched o Ysgol Gyfun Rhydfelen â'r Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd. Wnaeth y dosbarth hefyd cymryd rhan mewn dadl ynglyn â phwysigrwydd addysg iechyd. Cymerodd y grŵp yr ochr yn erbyn felly wnaeth Osian Llywelyn siarad allan er mwyn cefnogi y farn. Dyma agoriad ei araith:

'Yn gyntaf oll, mae rhaid i mi eich sicrhau nad ydym yn gwrthwynebu y cynnig yma oherwydd rydym ni'n erbyn iechyd da neu yn dweud dyw hi ddim yn bwysig cael addysg ynglyn â iechyd …addysg ar gyfer pawb, nid yn unig plant ysgol.'

Roedd o'n brofiad arbennig i'r Chweched a wnaeth pawb fwynhau. Ond, Rhydfelen oedd yr unig ysgol a wnaeth ei ddadl yn Gymraeg er bod yr ysgolion Cymraeg eraill yno fel Plasmawr a Dyffryn Taf! Collodd Rhydfelen y ddadl ynglyn â phwysigrwydd addysg iechyd ond hoffai'r ysgol dal ddiolch i bawb a aeth i'r Cynulliad a chynrychioli'r iaith Gymraeg.

Gan Emma Jones

Dwy o'r disgyblion a ymwelodd â'r Cynulliad sef Elina Magor a Nancy Renolds.

YSGOL CREIGIAU

Pêl Droed
Chwaraeodd tîm pêl droed yr ysgol yn erbyn Maes y Bryn. Roedd hi'n gem dda ac enillon ni 2-0. Rydym yn gobeithio chwarae yn eu herbyn nhw eto.

Chicago
Aeth Hannah Stracy ar drip i Chicago efo cerddorfa CAVMS. Fe arhoson nhw yno am ddeg diwrnod a pherfformio ddwy waith, un waith mewn ysgol ac unwaith mewn eglwys. Aeth Hannah a phlac o Ysgol Creigiau i ysgol yn Chicago a rhoddodd yr ysgol yn Chicago blac i'r gerddorfa.

Eisteddfod Sir yr Urdd
Llongyfarchiadau i Owain Griffiths am ddod yn gyntaf am lefaru dan ddeuddeg, i Hannah Miller am ddod yn gyntaf am lefaru dan wyth i ddys~gwyr, i Alice Cooksey am ddod yn gyntaf am lefaru dan ddeg i ddysgwyr, i'r grwp Dawnsio Gwerin dan ddeg ac i'r Côr. Pob hwyl yng Nghaerdydd a da iawn pawb a fu'n cystadlu..

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - Celf a Chrefft.
Llongyfarchiadau i Geraint Herbert, Dosbarth 5 a enillodd y wobr gyntaf am dynnu Iluniau ffotograff du a gwyn ac i Beth Williams, Dosbarth 1 a enillodd y drydedd wobr am brintio.

Meinciau Newydd.
Yn ystod y gwyliau Pasg cawsom feinciau lliw arian newydd sbon i wahanu'r iard newydd oddi wrth yr hen un. Mae Mr Davies wedi bod yn brysur hefyd yn twtio yr hen feinciau trwy eu peintio. Cafodd pawb syrpreis fore cyntaf y tymor pan welon nhw y meinciau.

Lluniau ysgol.
Roedd pawb yn smart iawn yn eu gwisgoedd ysgol ac yn gwenu'n siriol ar y ffotograffydd.

Yr Ardd
Roedd pawb yn meddwl ei bod hi'n amser i ddefnyddio y tir y tu ôl i'r cabanau felly, mae Mrs Hurford a Miss Griffin wedi bod yn gweithio yn galed iawn yn trefnu ac yn gofalu bod y gwaith yn mynd rhagddo. Mae gwerth dros fil o bunnau o waith wedi ei wneud yn barod. Dangosodd llawer o blant ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb garddio. Bydd y clwb yn mynd i'r ardd bob dydd lau i edrych ar ei hôl hi.

Cystadleuaeth Wcw
Llongyfarchiadau i Megan Rose Dosbarth 1. Enillodd hi gystadleuaeth tynnu llun Rwdlan.

Ysgol Craig y Parc
Cafodd pawb oedd wedi cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd gyfle i berfformio yn ysgol Craig y Parc yn eu cyngerdd Gwyl Dewi. Roedd e'n amser cerddorol iawn a hapus a phawb yn cymryd rhan.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones a Jayne Rees

Ysgol Evan James.

Peryglon Bywyd
Aeth plant Blwyddyn 6 i ymweld â 'r "Criw Craff " yn Nhrefforest yn ddiweddar i ddysgu am y peryglon sydd o'n cwmpas bob dydd. Cafwyd prynhawn buddiol iawn.

Pêl-rwyd.
Chwareuwyd dwy gêm yn erbyn Ysgol Maesycoed. Cyfartal oedd sgor un gêm ac fe gollwyd y llall o 6 i 0.

Apêl Arch Noa
Aeth Mr. Wil Morus Jones a thair o ferched Bl. 6 i gwrdd ag Ian Botham. Mae'r ysgol wedi dewis elusen Apel Arch Noa fel ei hapel arbennig eleni. Roedd y cyn - gricedwr wrth ei fodd yn derbyn siec sylweddol gan y plant wrth iddo barhau a'i daith o Fachynlleth i Gaerdydd yn hybu'r apel i godi arian i sefydlu ysbyty i blant yn y brif ddinas.

Athrawon Newydd
Croeso i Andrew Johnson sy wedi ymuno â'r staff dros dro. Dymuniadau gorau i Mrs. Anwen Robins fydd yn cychwyn ar gyfnod mamolaeth. Croesawn Mr. Pedr MacMullen yn ei lle i ddysgu Blwyddyn 6.

Ysgol Pont Siôn Norton

Celf a Chrefft yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth sir celf a chrefft yr Urdd:

Gwaith creadigol 2D (dan 8 oed) -
3ydd - Rhodri Bennett
Gwaith creadigol 3D (dan 8 oed) -
2ail - Jade Morgan
3ydd - Blaine Philpott
Gwaith creadigol 2D (dan 12 oed) -
3ydd - Amy Bassett

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

EFAIL ISAF.
SWYDD NEWYDD
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Christopher, mab Colin a Shelagh Griffiths, Heol y Ffynnon yn ei swydd newydd yn gyfrifydd i Gwmni Penseiri Wyn Thomas a Gordon Lewis yng Nghaerdydd. Mae'n dda deall fod Colin hefyd yn gwella'n dda ar ôl y salwch ddechrau'r flwyddyn.

BRYSIA WELLA TOMOS BACH.
Dymunwn wellhad buan i Tomos mab Mike a Lyn West, Nant Celyn. Gobeithio y cei wared o'r hen blaster yna o'th fraich yn fuan iawn.

Ffotograffiaeth
Print lliw (dan 12 oed) -
1af - Amy Bassett
Cyfres o brintiau lliw (dan 12 oed) -
1af - Amy Bassett
2ail - Amy Bassett
Cafodd gwaith y buddugwyr ei arddangos yng Nghanolfan Hanesyddol a Diwydiannol Pontypridd. Llongyfarchiadau hefyd i Alex Wiosna a Rudi Mears am dderbyn canmoliaeth uchel a chael eu gwaith wedi ei gynnwys yn yr arddangosfa.

Hanes Lleol

Bu Mrs Mairwen Davies, aelod o'r gymuned leol, yn siarad â phlant Cyfnod Allweddol 1 am ei phlentyndod yn yr ardal leol. Daeth â nifer o luniau ac arteffactau i ddangos i'r plant ac roeddent wrth eu bodd yn gwrando a dysgu am y gorffennol.

Llenwi Bwlch

Croeso i ddwy aelod newydd ymhlith y staff, sef Amanda Foye a Hannah Roberts. Mae'r ddwy yn cyflenwi gyda ni am dymor. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

DYWEDDIO
Pleser yw cael llongyfarch Eleri Edmunds a Daniel Morrison ar eu dyweddiad adeg Y Pasg. Merch hynaf John a Pat Edmunds, Pen y Waun yw Eleri ac mae hi'n dysgu yn Ysgol Gymraeg Sant Curig, Y Barri. Brodor o Bedford yw Dan a phob clod iddo am ddysgu'r iaith Gymraeg.

UN O SÊR POBOL Y CWM.
Braf oedd gweld Siôn Cox, Nant Celyn yn perfformio ar y teledu ar raglen Pobol y Cwm adeg y Pasg. Siôn oedd yn chwarae rhan Danny, mab Mrs McGurk ..... y ddau wedi dod draw o Sbaen i fedydd "Chester bach!"

SYMUD TY
Dymuniadau gorau i Tîm ac Alyson Cox a'r teulu, Siôn, Catrin, Ffion a Cai sy'n symud o Nant Celyn i'r Creigiau i fyw. Fe fyddwn yn gweld eich colli yn yr Efail Isaf. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd ym Maesycoed, Heol Creigiau.

CROESO ADRE'
Croeso nôl o'r Iwerddon i Gary Samuel lle bu'n hyfforddi timau rygbi Clwb Ballina. Dwi'n siwr y bydd Bethan ac Emily (ei wyres) yn falch iawn o gael ei gwmni dros yr Haf. Llongyfarchiadau i Mrs Dilys Samuel, mam Gary, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn ddeg a phedwar ugain ar Ebrill 9fed. Dymunwn yn dda iddi gan nad yw wedi bod yn rhy dda ei hiechyd ers misoedd yn dilyn cwymp a gafodd ar ei ffordd i'r Capel ym Mis Medi. Mae Mrs Samuel yn ddarllenydd brwd a chyson o Tafod Elái er ei bod yn byw yng Nghwm Tawe.

DROS DRO
Diolch i Loreen am lenwi bwlch gohebydd Efail Isaf dros dro. Rydym yn chwilio am ohebydd newydd i'r pentref

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

MARWOLAETH CYMYDOG.

Ar brynhawn Sadwrn y 16eg o fis Mawrth daeth y newydd trist am farwolaeth cymydog i ni yn Nhylchawen sef Mr Ben Davies Rhokana yn 77 oed. Er nad oedd yn annisgwyl, roedd wedi bod yn dioddef ers amser ac wedi bod nôl a mlaen i'r ysbyty am gyfnod maith. Mae Ben a'i deulu wedi bod yn gymdogion didwyll i ni ers pan daethom fel teulu i fyw yma yn ôl yn y chwe degau'r ganrif ddiwethaf.

Bu'r Angladd ar Ddydd Mercher y 27ain o Fawrth, gwasanaeth yn y tŷ ac yna i Amlosgfa Llangrallo, gwasanaethwyd gan y Ficer lleol y Parchedig Stephen Ambani a gair pwrpasol gan Mr Graham Lewis ar yr aelwyd. Cydymdeimlad dwys â Margaret ei weddw, Ceri y ferch a'r unig blentyn a Patrick yr unig wyr. Roedd Ben yn arddwr pen i gamp ac yn aelod o glwb garddio lleol, yn gyn Gynghorydd Cymuned.

Roedd wedi teithio dipyn o'r byd fel morwr a gwelodd amser caled adeg rhyfel y Falklands pan oedd ar griw tancer olew a gorfod bod ynghanol y berw.

CORAU TONYREFAIL.

Ar nos Sadwrn y 13eg o Fawrth aeth Cantorion Richard Williams a Boneddigion Y Gan ynghyd â Helen May unawdydd, merch Richard, ar daith i Newbury i gynnal cyngerdd elusennol. Cafwyd croeso tywysogaidd a gwerthfawrogiad mawr i'w perfformiadau. Mae ganddynt alwadau eraill eto ar y gweill.

CAPEL Y TON.

Ar Sul 21ain o Ebrill cafwyd gwasanaeth y Parchedig David H. Thomas o Donypandy, gweinidog rhan amser ar Gapel Y Parc Cwmparc. Mae Mr Thomas wedi ei ordeinio ar ôl ymddeol fel athro a phennaeth adran yn Ysgol Uwchradd Tonypandy. Dymuniadau gorau iddo.

Hyfryd oedd cael cwmni Mrs Ivy Priddle yn yr oedfa ar ôl amser hir o waeledd a bod yn yr ysbyty. Mae Ivy yn 94 oed ag yn sionc ei throed.

SAFLE YR HEN LOFA CWMLAI.

Mae yna sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers iddynt ddechre tacluso yr hen safle, ond araf mae'r gwaith yn dod i ben. Wrth edrych arno yr ochr arall i'r cwm a gweld y peiriannau ar loriau maent fel morgrug a'r goleuadau yn fflachio. Tybed a welwn ni adeiladu unedau heb fod yn hir i ddod â gwaith i'r ardal. Mae'n disgwyl fod symud y gwastraff gwenwynig wedi dod i ben, yr hyn sydd wedi ei gladdu wrth gefn yr hen domen ar ben y mynydd.

Coleg Trefeca
ger Talgarth, Powys
Elusen gofrestredig rhif 258456

Llety ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru
nos Sul 21 – nos Iau 25 Gorffennaf 2002

Llety cyfleus ar gyfer y maes – 15 milltir ar heol fawr hwylus
£14 y pen y noson am wely a brecwast ysgafn
Swper ar gael am £6.50 y pen trwy drefniant

Wythnosau Gwyliau Trefeca
10 – 24 Awst 2002
£28 y pen y noson am swper, gwely, brecwast a phecyn cinio
plant hanner pris
Bargen ar gyfer gwyliau yn hyfrydwch Bannau Brycheiniog!

Bydd croeso yn eich aros yng Nhrefeca!
Am fanylion pellach neu i drefnu'ch lle, cysyllter â'r
Warden, Coleg Trefeca, Trefeca, Aberhonddu, Powys LD3 0PP
Ffôn: 01874 711423 Ffacs: 01874 712212 E-bost: trefeca@surfaid.org

Gwibdaith

Boreau Coffi A Grwpiau Dysgwyr Rhondda Cynon Taf
I Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne
Yn gadael 9.00 y bore 10 Mai 2002
£15 y pen (yn cynnwys mynediad, tywysydd a bws)

01443 226386

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

AR Y FFORDD I'R FFINDIR

Nôl ym mis Tachwedd soniais am Jayne Collier, Heol Greenlands a oedd wedi cael ei dewis o blith 'Guides' Ardal Canol Morgannwg i gynrychioli'r Sir yn Llandinam, ac mi addewais roi gwybod sut ddaeth hi ymlaen yno. Mae'n bleser gen i ddweud bod Jayne wedi gwneud yn arbennig o dda ac wedi cael ei dewis eto i gynrychioli'r 'Guides' - yn Ewrop y tro hwn. Bydd Jayne yn mynd i'r Ffindir ar ddiwedd mis Gorffennaf, gan hedfan i Helsinki - bydd hyn yn antur yn ei hunan gan mai hwn fydd y tro cyntaf yn ei bywyd iddi deithio mewn awyren. Caiff aros yno am bythefnos, yn gwario wythnos yn gwersylla ac yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau ac wythnos arall wedyn yn aros gyda theulu.

Mae Jayne yn awr yn brysur yn trefnu gweithgareddau ac yn ysgrifennu at wahanol sefydliadau er mwyn codi arian tuag at gostau'r daith – felly os ydych chi mewn sefyllfa i fedru noddi/bod o gymorth, rhowch wybod i Jayne ar 226086.

Llongyfarchiadau i ti Jayne a bob hwyl gyda'r daith. Gobeithiwn gael yr hanes i gyd ym mis Medi.

ARHOLIADAU OFFERYNNOL

Llongyfarchiadau i Catrin Evans, Clôs Leland ar basio arholiad ffliwt Gradd IV - mae Catrin yn derbyn gwersi ffliwt drwy'r gwasanaeth sydd ar gael yn Ysgol Gyfun Llanhari.

Mae Eleri Tudor hefyd wedi llwyddo yn ei harholiad piano, Gradd II – da iawn ti.

EISTEDDFOD YR URDD

Llongyfarchiadau i holl blant yr ardal a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch a'r Eisteddfod Sir a phob lwc i'r rheiny sy'n mynd ymlaen i'r Genedlaethol yng Nghaerdydd.

EISTEDDFOD Y 'GUIDES' A'R 'BROWNIES'

Mae peth amser wedi mynd heibio ond mae dal yn werth sôn am Eisteddfod arall a drefnwyd ddechrau mis Mawrth, sef un y 'Guides' a'r 'Brownies', y cyntaf un i Ardal Canol Morgannwg ei drefnu. Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ysgol Coedylan, Cilfynydd a chynrychiolwyd grŵpiau Llantrisant a Meisgyn yno. Roedd amrywiaeth o gystadlaethau cerddorol a rhai celf a chrefft a bu llawer o ferched ardal Llantrisant yn llwyddiannus: enillodd Jayne Collier gystadleuaeth offerynnol, ar y delyn a bu ei chwaer, Nia, yn fuddugol wrth goginio cacennau bach; daeth Amy Nichols a Ceryn Lawless yn gyntaf mewn cystadlaethau canu a daeth Rhian Greaves yn ail yn y gystadleuaeth cynllunio poster twristiaeth; daeth Anya Malik hefyd yn ail yn y gystadleuaeth cynllunio carden penblwydd. Bu Catrin Greaves, Catherine Hill Tout a Hannah Greville yn cymryd rhan hefyd (gobeithio nad wyf wedi gadael unrhywun arall allan - ymddiheuriadau os ydw i!)

Cafodd y plant amser prysur, ond pleserus yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod ac ar y diwrnod ei hun. Da iawn chi a diolch i arweinyddion Canol Morgannwg am drefnu'r digwyddiad.

GENEDIGAETHAU

Llongyfarchiadau i Rebecca a Neil Shearman sydd wedi cael bachgen bach yn ddiweddar. Mae Rebecca a Neil a'r babi yn byw ym Mhant y Dderwen, Pontyclun. Merch i Gareth a Jane John, Tonysguboriau yw Rebecca a wyres i'r diweddar Mr a Mrs John, gynt o fferm Talyfedw, Castellau.

Mae gan Gwilym a Beti Treharne ŵyr newydd hefyd – ganwyd Rhys ar ddechrau mis Ebrill i Ceri a Mark, sydd bellach yn byw ym Mhenybont. Llongyfarchiadau i chithau hefyd.

SAFLE'R HEN HOMEWORLD

Efallai fod rhai ohonoch wedi darllen yn y wasg lleol bod Tesco wedi cael caniatâd cynllunio yn ddiweddar ar gyfer codi archfarchnad newydd enfawr ar safle'r hen Homeworld. Y bwriad yw agor y siop newydd erbyn y Nadolig a bydd y gwaith adeiladu yn dechrau cyn bo hir - mae'n debyg mai'r oriau gwaith ar gyfer y gwaith fydd 8.00 y.b. nes 6.00 y.h. o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn rhwng 8.00 ac 1.00. Ni roddwyd caniatâd iddynt weithio ar y Sul nac ar Wyliau Banc.

Ymysg y cytundebau eraill oedd y trefniant i ddarparu tua 50 o lefydd parcio ceir yn y maes parcio isaf i wasanaethu anghenion Tonysguboriau - bydd hyn yn fuddiol gan nad oes unman bron i barcio yn y dref ar hyn o bryd. Yn ogystal, bydd trolïau arbennig gan y siop, sef rhai na ellir eu symud y tu allan i ffiniau'r Tesco newydd - bydd hyn yn goresgyn y broblem bresennol lle mae trolïau yn cael eu gadael dros y lle i gyd, bellter o'r siop ei hun ac yn aml yn achosi perygl. Hefyd bydd rhwystrau sain acwstig yn cael eu darparu fel nad yw'r swn o'r safle yn amharu ar drigolion Ystad Parc Newydd, y cartref i'r henoed a thrigolion Southgate. Ni chaniateir torri'r coed sydd ar y safle i lawr ychwaith.

Nid oes sicrwydd ynglyn â beth fydd yn digwydd i safle'r Tesco presennol yn Nhonysguboriau ond mae'n lled debygol y caiff yr adeilad ei dymchwel.

CANTORION IAU RICHARD WILLIAMS

Mae Catrin Greaves, Heol y Pistyll, wedi ymuno â'r côr uchod ers rhai misoedd bellach ac yn mwynhau mynd i'r ymarferion. Mae rhaglen go brysur o gyngherddau gyda nhw hefyd ac ar hyn o bryd maent yn paratoi ar gyfer taith i'r Islediroedd yn yr haf. Cynhaliwyd cyngerdd i godi arian tuag at y trip yn y Ganolfan Hamdden yn Llantrisant ar y 9fed o Fawrth. Gobeithio y cawn fwy o newyddion am hyn gan Catrin yn agosach at yr amser.

Ysgol Gymraeg Llantrisant

Yr Oes o'r Blaen
Yn ddiweddar, aeth Dosbarth Mrs Williams a Dosbarth Mrs Jones ar ymweliad â Llancaiach Fawr. Mae'r plant yn astudio hanes y Tuduriaid y tymor hwn felly nid oedd lle gwell am ymweliad! Tra yno, cafodd y plant gyfle i wneud cannwyll gan ddefnyddio darn o gwyr a hen offer y cyfnod hwnnw. Diwrnod bythgofiadwy rwy'n siwr!

Croeso 'nôl i Mrs Lisa Veck ar ôl bod i ffwrdd ar absenoldeb mamolaeth. Croeso hefyd i Steffan, mab newydd Mr a Mrs Veck! Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a phob lwc ar gyfer y dyfodol oddi wrth ddisgyblion a staff yr ysgol.

Diolch yn fawr iawn i Miss Ruth Lloyd am gymryd lle Mrs Veck tra oedd hi i ffwrdd. Yn siwr, daw Miss Lloyd 'nôl cyn bo hir i'n gweld ni!

Croeso hefyd i Miss Catrin Richards sydd wedi bod gyda ni am dymor bellach yn dysgu plant bach y Dosbarth Derbyn. Daw Miss Richards atom o Ysgol Evan James. Mae Mrs Veck yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda Miss Richards bob nos Fawrth gyda phlant y côr.

Eisteddfod yr Urdd
Unwaith eto eleni, mae nifer o blant wedi cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd ac mae llawer iawn ohonynt yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni :
Gwaith Celf a Chrefft ~
Alex Howell Dosbarth 9
Emily Hurst Dosbarth 7
Y Gân Actol
Y Ddeuawd ~ Elin Davies a Seren Abraham (Dosbarth 8).
Yr Unawd Alaw Werin ~ Rachel Evans (Dosbarth 8)
Llefaru dan 8 ~ Elliott King (Dosbarth 4)
Yr Unawd Cerdd Dant ~ Elin Davies (Dosbarth 9)

Mae'r tîm Cwis Llyfrau dan 12 wedi bod yn llwyddiannus eleni ar ôl ennill rownd gyntaf y cwis hwn. Nawr, bydd rhaid iddynt fynd ymlaen i'r rownd derfynol yn Ysgol Bro Ogwr, Pen-y-bont ar Fai 21ain. Yn y rownd gyntaf, roedd rhaid trafod llyfrau penodol a mynegi barn am y llyfrau hyn. Yn y rownd derfynol, bydd rhagor o ddarllen a thrafod yn ogystal â dramateiddio darn o nofel a'i gyflwyno o flaen y beirniaid a chynulleidfa yn Ysgol Bro Ogwr. Felly pob lwc iddynt !!

Chwaraeon
Mae'r tîm pêl-rwyd wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni. Yn ddiweddar, chwaraeodd y plant mewn twrnamaint yn erbyn pedair ysgol leol. Roedd Miss Barton yn hapus tu hwnt gydag ymdrechion y tîm ac yn wir, fe ddaethon nhw'n ail. Felly, gyda'r holl waith caled ac ymdrech yma mae'r tîm yn edrych ymlaen at y gêm nesaf! Mae'r merched yn mwynhau mas draw!

Hefyd, cafodd y tîm rygbi eu gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Castellau. Mr Muir, tad Matthew Muir Dosbarth 8, sydd wedi bod yn hyfforddi'r tîm eleni. Roedd y bechgyn yn chwarae'n arbennig o dda ym marn Mr Muir ond yn anffodus, ni enillon nhw y gêm er bod hi'n agos iawn. Felly diolch yn fawr iawn i Mr Muir am ei holl waith caled ac mae'r bechgyn yn edrych ymlaen at y gêm nesaf!

Diogelwch
Aeth Dosbarth 9 ar ymweliad diddorol iawn Ddydd Gwener, Ebrill 19eg. Aethon nhw i'r 'Safety Zone' ar stad ddiwydiannol Trefforest i gymryd rhan mewn 'gweithdy cadw'n ddiogel'. Yno roedd nifer o stondinau gwahanol sef Yr Heddlu, Y Frigâd Dân, swyddogion diogewlch yr heol y Sir, cynrychiolydd o gwmni Western Power i enwi ychydig. Cadw'n ddiogel oedd neges y bore a roedd y plant wrth eu boddau yn symud o un arddangosfa i'r llall yn dysgu am hyn i gyd.

Nos Fawrth, Ebrill 23ain, cynhaliwyd noson agored i rieni newydd y Meithrin. Noson Caws a Gwin oedd hi gyda chyflwyniad a sgwrs anffurfiol am y llu o weithgareddau diddorol a chyffrous sydd o flaen y plant bach newydd hyn ar eu taith hir drwy Ysgol Gynradd Gymraeg, Llantrisant.


Welsh Singers Competition
Cystadleuaeth Gantorion Cymreig

ROWND DERFYNOL y GYSTADLEUAETH
I GANTORION CYMREIG
Neuadd Dewi Sant, Caerdydd
Nos Llun 10 Mehefin 2002 am 7.25 y.h.
Yr enillydd i gynrychioli Cymru yng
Nghystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd 2003

Cantorion fydd yn perfformio yn y rownd derfynol
Elizabeth Donovan
Charlotte Ellett
Camilla Roberts
Mark Chaundy
Andrew Rees

Rhif ffôn: 029 2087 8444

Ysgol Castellau

Anna Ffenna Ffostus

Gwraig dal a hardd oedd Anna Ffenna Ffostus, gwisgai ffrog ddu hir gyda het bigfain. O dan yr het bigfain roedd lwmp o wallt du yn eistedd ar ei phen.

Pen bach oedd gan Anna Ffenna Ffostus gyda llygaid mawr du yn sticio mas. Ar ei bysedd gwisgai fodrwyon, deiamonds a chadwyn bert o gwmpas ei gwddw.

Eisteddai ei chath Snishyn ar wal o gwmpas ei bwthyn. Roedd ei bwthyn mor bert, yn ei gardd tyfodd flodau lliwgar hapus. Melyn oedd lliw ei ffenestri a'i drws a mwg daeth allan o'i simne.

Teithiodd Anna Ffenna Ffostus o gwmpas ar ei ysgub, roedd rhaid iddi hi siarad gyda Benja Ragls achos roedd e'n dwyn popeth pert. Yn y diwedd llwyddodd Anna Ffenna Ffostus i nôl y clogwyn hud.

Gwrach garedig oedd Anna, ffrind i bawb a thriai helpu pawb. Roedd ganddi lais bach pitw a llygaid caredig. Roedd Anna Ffenna Ffostus yn wrach hyfryd.

Sarah Jones
Blwyddyn 6

Rhodri Bonsu
Blwyddyn 4



Y Fam Teresa

Cafod y Fam Teresa ei geni yn 1910 yn Setfia.
Daeth y Fam Teresa yn lleian yn 1928 yn Iwerddon.
Aeth i India yn 1948.
Gwelodd Teresa pobl tlawd yno.
Agorodd ysbyty yn 1948 i helpu pobl tlawd a gwael.

Jessica Mundy
Blwyddyn 2

Sgwn i be fydda i pan fyddai i'n fawr?

Pan fydda i'n fawr hoffwn i fod yn fil feddyg. Hoffwn i wneud y swydd yma achos rwy'n hoff o anifeiliad ac rwy'n hoff o helpu pobl eraill. Byddaf yn gwneud popeth i'r anifeiliaid sal fel rhoi pigiad iddyn nhw neu roi triniaeth iddyn nhw efallai. Dydw i ddim yn nabod unrhyw un arall sy'n gwneud y swydd yma. Hoffwn i gwrdd â llawer o berchnogion a'u hanifeiliaid yn fy swydd, ond bydd yn rhaid i mi weithio'n galed yn y coleg!!! Byddaf wrth fy modd fel milfeddyg.

Taylor Morgan
Blwyddyn3

Mae gen i wallt brown a llygaid brown. Mae gen i chwaer, Erin. Rydw i'n hoffi banana.

Joshua Meredith
Blwyddyn 1





Cerdded
Bob amser os rwyt ti'n cerdded yn y nos mae hi'n bwysig i wisgo rhywbeth golau

Llafnrolio
I groesi'r ffordd gan lafnrolio mae'n rhaid dal i gadw i'r rheolau cerdded

Teithio mewn car
Mae'r gyfraith yn dweud fod rhaid gwisgo gwregys diogelwch bob amser.

Defnyddio Bysiau
Meddyliwch bob amser am yr hyn a allai fod yn digwydd o'ch cwmpas.

Beicio
Gwnewch yn siwr fod eich beic yn ddiogel i reidio. Dylech brêcs a'ch teiars fod yn gweithio'n iawn.

Anifeiliaid ar y ffordd
Peidiwch â gadael y ci allan ar ei ben ei hun. Cadwch ef ar dennyn o hyd wrth gerdded ar hyd y palmant, y ffordd neu lwybr beiciau a gwnewch yn siwr eich bod rhwng y ci a'r traffig.

Kyle Edwards
Blwyddyn 5

Sgwn i beth fydda i
Pan fydda i'n fawr?

Tydw i ddim yn goeden
Nac yn ddeilen
Tydwi ddim yn llyfr
Nac yn bapur

Tydwi ddim yn brenmesur
Nac yn bren
Tydw i ddim yn ddant
Nac yn geg

Tydw i ddim yn oren
Nac yn fanana
Tydw i ddim yn Hydref
Nac yn Aeaf

Tydw i ddim yn ffenest
Nac yn dŷ
Tydw i ddim yn 26
Nac yn 31

Ond beth ddaw ohona i
Yma'n y byd
Pan fydda i'n hŷn
Fyddai'n neb medda Mam
Ond fi fy hun

Gan Nia Lewis
Blwyddyn 3

Maiasor

Roedd y maiasor yn un math o ddeinasor. Roedd y maiasor yn byw mewn pridd ac yn gwneud nyth allan o gerrig mwd. Roedden nhw yn bwyta dail a phlanhigion. Bob dydd roedd y rhieni yn cario bwyd i'w rhai bach. Mae wŷ y maiasor yn pwyso deuddeg kilogram.

Bronwen Kidner
Blwyddyn 2

Maldwyn Y Ddraig Hud

Crynodd y mynydd wrth i'r ddraig neidio i mewn i'w wely yn yr ogof ddu. Maldwyn oedd enw'r ddraig ond doedd neb yn gwybod hynny achos roedd e'n byw mor uchel yn yr ogof ar ben y mynydd. Doedd Maldwyn ddim yn gas o gwbl ond roedd pawb yn meddwl bod pob draig yn gas neu'n ffyrnig. Ffrind oedd eisiau arno, fwy na dim yn y byd, ond doedd ganddo fe ddim un. Roedd e'n teimlo mor unig. Roedd e'n bwyta briciau o gefn ei ogof a phob gaeaf, bydde fe wedi bwyta ei ogof ac yn dechrau adeiladu un arall. Yn gorwedd yn ei wely efo bricsen yn ei law, dechreuodd e frifo mwy fyth yn ei galon bod dim ffrind ganddo.

Ond roedd rhywbeth sbesial am Maldwyn. Roedd pawb yn meddwl bod pob draig yn chwythu tân ond nid Maldwyn. Roedd ganddo fe bwerau hudol yn lle! Gorffennodd ei fricsen ac aeth i gysgu tan y bore braf nesaf. Maldwyn oedd y ddraig oedd yn hoffi ei gwsg mwy na unrhyw ddraig arall felly roedd e'n ddigon cryf i'r bore nesaf.

Pan aeth ei gloc larwm yn swnllyd yn ei glust, fe gododd Maldwyn ar unwaith. Cerddodd yn gysglyd draw at y bibell ddwr a'i gawod. Dim ond dŵr oer daeth trwy y bibell ond doedd Maldwyn ddim yn poeni cael cawod oer. Ar ôl y cawod ddychrynllyd o oer, gwisgodd ac aeth i gael bricsen arall i'w fwyta i frecwast.

"Crynsh!" aeth ei ddannedd ar y fricsen. "Crynsh, crynsh!", aeth e eto wrth gnoi y cerrig bach yn ei geg. Aeth e allan i weld pa fath o ddydd oedd hi gan sugno'i fysedd i gael blas y fricsen o'i ddwylo. Roedd hi'n braf ond wrth iddo edrych o gwmpas, gwelodd ferch fach a'i thad.

Roedd y ddau ohonynt yn dod i fyny'r mynydd at yr ogof. "Ga i fynd i edrych o gwmpas? Plis Dad!"gwaeddodd y ferch.

"Iawn, iawn ond bydd yn ofalus" rhybuddiodd ei thad. Rhedodd y ferch wrth waeddi`n hapus. Daeth y ferch tuag at yr ogof. "Helo? Unrhywun?" Gofynnodd hi mewn llais bach y tu mewn i'r ogof.

"Helo? Pwy sy' na?" atebodd Maldwyn. Daeth e allan o'r ogof a gwelodd y ferch. "Helo Mr Draig" dywedodd hi.

"Maldwyn os wyt ti ddim yn meindio" atebodd Maldwyn. Edrychodd yn syn arni. Byddai unrhywun arall wedi rhedeg milltir ond dim Sara.

"Dwi mor unig lan fan hyn" dywedodd Maldwyn wrthi. Eisteddodd i lawr efo bricsen arall. "Wyt ti eisiau darn?" gofynnodd Maldwyn wrth estyn darn o fricsen iddi.

"Dim diolch" atebodd Sara.

"Dwi eisiau rhywle arall i fyw" meddai Maldwyn yn drist.

"Mae gen i syniad!" gwaeddodd Sara mor sydyn. Brathodd Maldwyn ei dafod. "Dwi eisiau glanhau cyn i ti ddweud dy syniad di" a pwyntiodd at y llawr. Diflannodd popeth i'w lle cywir. Roedd Maldwyn yn defnyddio ei hud unwaith y dydd. "Nawr beth yw'r syniad?"

Sibrydodd Sara yn dawel yn ei glust. "Wyt ti'n siwr bydd hynny'n gweithio?" gofynnodd Maldwyn wrthi. Gallai fetio fy ngheiniog olaf bod e'n mynd i weithio" atebodd hi'n hyderus. Wrth i Sara a'i thad fynd i ffwrdd yn y car mewn cwmwl o fwg glas efo Maldwyn wedi clymu i'r to, sylweddolodd Maldwyn fod e byth wedi cael gymaint o hwyl yn ei fywyd yn gorwedd ar ben y car.

Doedd dad ddim yn gwybod dim, ac wrth iddyn nhw grensian i stop, deifiodd Maldwyn o'r to gan ddadglymu'r rhaffau, ac i mewn i'r goedwig. Hyd at heddiw, does neb yn gwybod bod Maldwyn yn byw yn y goedwig ond, bob hyn a hyn bydd Sara yn dod â bwyd iddo. Mae e dal yn byw yn y goedwig mewn lle o'r enw Nantlle, yng Ngogledd Cymru, ond cadwch chi'r gyfrinach i chi'ch hyn. COFIWCH. Peidiwch â dweud gair... !

Owain Williams
Blwyddyn 6

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

HSBC YN CEFNOGI DYSGWYR Y GYMRAEG UNWAITH ETO

Mae'r HSBC wedi penderfynu cefnogi dysgwyr y Gymraeg unwaith eto eleni trwy ddarparu nawdd at gronfa ddysgwyr Menter Iaith. Ac nid Menter Iaith yn Rhondda Cynon Taf yn unig sy'n elwa eleni y mae Mentrau Iaith Caerdydd, Caerffili, Bro Ogwr a Chastell Nedd Port Talbot hefyd yn derbyn nawdd o dan y cynllun poblogaidd hwn. Mae ffurflenni cais ar gael o swyddfeydd y Fenter.

TRIP DYSGWYR CYD I'R GERDDI BOTANEG YN LLANARTHNE

Mae Dysgwyr CYD a Menter Iaith wedi trefnu trip i'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol yn Llanarthne ar 10fed Mai gyda chriw go lew yn mynd o Aberdar, Aberpennar, Pontypridd a Llantrisant. Y mae Huw, Rhian a Diane yn mynd o staff y Fenter a phob un arall yn gofyn os allen nhw gael y dyletswydd hyfryd yma – mae'r gwaith yn galed weithiau.

SWYDDFA NEWYDD TREORCI

Erbyn hyn y mae'r Fenter wedi agor swyddfa newydd yng Nghanolfan Menter Treorci ar Ystâd Ddiwydiannol Cae Mawr ger cae rygbi Treorci a siop ffactri'r ystâd. Mae pawb yn gofyn am fap ac yn dal yn mynd ar goll wedyn – mae'r swyddfa tu allan y ffactri, trwy'r gât ar ôl y bont a rownd y cefn fel pe tai. O wel, bydd pawb yn gwybod pan fydd y gwaith yn dechrau go iawn.

SWYDDOG CYMUNEDAU YN GYNTAF

Llongyfarchiadau i Gwion Rees, Yr Efail Isaf, ar gael ei benodi yn Swyddog Cymryd Rhan Cymunedau Yn Gyntaf gyda'r Fenter. Fe fydd yn helpu cymunedau Cymraeg Rhondda Cynon Taf i nodi eu hanghenion ac wedyn eu cynorthwyo i gyflawni'r hyn maen nhw am gyflawni. Mae sawl cwestiwn i'w hystyried megis ble neu beth yw Cymunedau Cymraeg Rhondda Cynon Taf! Wrth symud i ffwrdd o'r syniad o gymunedau daearyddol yn unig y mae cymunedau o ddysgwyr, cymunedau merched, cymunedau o ddarllenwyr ac ysgrifenwyr papurau bro, cymunedau yn gysylltiedig ac ysgolion – yr athrawon, y rhieni a'r disgyblion, cymunedau o ddiddordeb megis drama, cerddoriaeth a chymdeithasau. Y mae llawer o waith i'w wneud gyda'r cymunedau Cymraeg sydd gennym a hefyd fe fydd disgwyl i Gwion gynghori partneriaethau eraill Cymunedau Yn Gyntaf parthed dwyieithrwydd a chyflwyno defnydd o'r Gymraeg mewn cydweithrediad gyda staff Cyngor Rhondda Cynon Taf.

BOREAU COFFI YN TYFU O HYD

Mae Boreau Coffi'r Fenter dal yn cadw sgôr o faint o ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu yn rheolaidd gyda bore coffi Llantrisant ar y blaen ar hyn o bryd gyda 12/13 bob dydd Gwener yn y Bwtsiars – siop goffi hyfryd iawn os nad ydych wedi bod yno – rhwng 10.30am a 11.30am. Mae criwiau mawr hefyd yn mynd i Amgueddfa Cwm Cynon Aberdar rhwng 11.00am a 12 canol dydd bob dydd Mawrth ac i Ganolfan Bowlio Aberpennar rhwng 10.30am a 11.30am bob dydd Mercher. Mae criw John John yn cyfarfod bob dydd Iau yn y Miwni ym Mhontypridd ac yn gofyn am gwmni mwy rheolaidd gan y Fenter felly y mae Colin Williams yn addo cadw llygad arnyn nhw o dro i dro er bod Steffan a Rhodri yn galw i mewn pan fo cyfle – ond y mae rhaid i bobl wneud gwaith weithiau.

CWRS YMESTYN BUSNES ADDAS I BAWB

Bydd Cwrs Ymestyn Busnes rhad ac am ddim yn dechrau ar 13eg Mai rhwng 6-9pm bob nos Lun yng Nghanolfan TEEP ar Ystâd Trefforest, Pontypridd, mewn cydweithrediad gyda Menter a Busnes fel rhan o brosiect Arian Amcan Un y Fenter sy'n gweithio tuag at Ddatblygu'r Economi Cymraeg. Mae'r cwrs yn edrych at helpu pobl sydd â diddordeb mewn ymestyn eu busnes ond y mae croeso hefyd i bobl sydd â diddordeb mewn cychwyn eu busnes eu hunan am y tro cyntaf. Cewch help i lunio cynllun busnes, deall goblygiadau cyflogi staff a delio gyda'r banc a'r trethi i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Oes gen ti syniad busnes? Byddem yn falch o'ch helpu ar eich ffordd.

NOSWEITHIAU CWLWM BUSNES Y CYMOEDD

Cynhelir noson nesaf Cwlwm Busnes y Cymoedd yng Nghanolfan Fenter Parc Navigation Abercynon am 6pm ar nos Fawrth 14eg Mai gyda Huw Thomas – Golygydd Ceir Papur Newydd Y Cymro yn edrych ar "Ceir Cymru, eu gwneud nhw, prynu a gyrru nhw". Beth yw'r car gorau sydd ar gael? Pa geir sy'n cael eu gwneud yng Nghymru? Pa ddyfodol sydd i'r diwydiant ceir? Beth yw'r car cyflymaf? Ble mae cael bargen wrth brynu car? A fydd fy Skoda i werth cymaint â Lada ymhen can mlynedd?

Gallem rhoi rhaghysbys hefyd am noson Cwlwm Busnes y Cymoedd ym mis Mehefin sef 6pm ar nos Fawrth 11eg Mehefin yng Nghanolfan Fenter Parc Navigation Abercynon pan fydd Jonathan Jones, Prifweithredwr Bwrdd Croeso Cymru yn trafod twristiaeth a Chymru – Wales – The Big Country! Oes dyfodol i dwristiaeth yn y cymoedd? Oes twristiaeth Gymraeg? Sut mae symud i ffwrdd o'n delwedd o byllau glo a diweithdra a glaw di-baid? Pam fod gwyliau ym Mhrydain yn costio cymaint?

DIOLCH YN FAWR EIRIAN DAVIES

Eirian Davies sydd wedi trefnu'r holl ddigwyddiadau economaidd cyn iddi hi symud ymlaen at ei gwaith newydd fel Swyddog Datblygu Menter Dyffryn Aman – ardal ei chartref hi – felly diolch yn fawr iawn iddi hi am ei gwaith caled yn

ystod y ddwy flynedd diwethaf a phob lwc iddi yn ei gwaith newydd. Deallaf y bydd yn dechrau cyfres o foreau coffi i'r dysgwyr – wel, dyna i chi syniad da! Rydym wedi colli cefnogaeth Eirian yn fawr ac yn gobeithio cyhoedd enw swyddog newydd yn fuan iawn.

CYNLLUNIAU CHWARAE GWYLIAU HANNER TYMOR YR HAF

Bydd holl gynlluniau chwarae'r Fenter ar agor yn ystod haner tymor yr Haf yn Rhydfelen, Llanhari, Abercynon, Y Cymer, Llynyforwyn a Bronllwyn gyda amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys nofio, celf a chrefft, chwaraeon, gemau bwrdd a pharasiwt, Castell Neidio, Peintio Gwynebu a llu o weithgareddau eraill.

AROS AM ARIAN AT GYNLLUNIAU CHWARAE'R HAF

Er taw cynlluniau chwarae'r Fenter ydy'r unig gynlluniau chwarae Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf ymddengys nad oes modd i ni ddibynnu ar Gyngor Rhondda Cynon Taf am gefnogaeth ariannol at ein gwasanaethau. Rydym yn gorfod gwneud cais o'r newydd nawr – gyda dim ond ychydig wythnosau i fynd tan yr Haf – er mwyn cyfiawnhau bod ein gweithgareddau chwarae yn agored i bawb ac yn darparu gwerth am arian.

CLYBIAU CARCO YN DENU CANNOEDD

Ie wir mae'r degau a degau o blant yn ymweld â chlybiau carco'r Fenter trwy Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i fanteisio ar ymwelidau'r Dyn Hud, Sesiynau Nofio, Nosweithiau Cwn Poeth a Fideos yn ogystal â nosweithiau MacDonalds poblogaidd iawn. Mae'r clybiau hyn yn darparu gwasanaeth gofal chwarae rhwng 3.30pm a 5.45 bob noson o'r wythnos yn Ysgolion Cymraeg Aberdar, Abercynon, Rhydygrug, Pontsionorton, Evan James, Heol y Celyn, Garth Olwg, Castellau, Bodringallt, Bronllwyn, Llynyforwyn, Llwyncelyn, Tonyrefail, Castellau, a chlybiau ail iaith Gymraeg yn Tonysguboriau, Llanharan a Thwynyrodyn. Y mae 17 clwb ar agor bob noson o'r wythnos. Nawr te os oes 65 o blant yn gweld y dyn hud mewn un clwb …… mae 17 X 65 yn……..wel, lot o blant!

GWASANAETHAU CHWARAE YN CREU GWAITH

Braf o beth ydy manteisio ar feddalwedd er mwyn gwneud cyfrifon a threthi diwedd y flwyddyn. Bu i ni ddechrau ar system cyfrifadurol o gadw cofnodion trethi ac ati ac fe fydd yr holl fanylion ar gyfrifiadur y flwyddyn nesaf. Ac mae hynny yn beth da wrth i ni gyflogi ymhell dros 100 o bobl ar y cynlluniau chwarae.

Mae'r Fenter yn gyflogwr mawr ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn at economi Rhondda Cynon Taf. O ie, rydym yn gwneud hynny hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn creu oriau ac oriau o gyswllt â'r Gymraeg sydd yn newid patrymau ieithyddol yr ardal. Y ddau sy'n cael mwy o waith a hasls wrth gwrs ydy Trystan a Diane sy'n gorfod trefnu'r gwasanaethau i gyd felly diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu gwaith caled.

DYMUNIADAU GORAU I HELEN DAVIES

Mae Helen Davies, cadeiryddes y pwyllgor sy'n trefnu'r gwasanaethau hyn, wedi gorfod rhoi'r gorau i'r cyfrifoldebau hynny ar ôl blwyddyn o waith ar y pwyllgor. Diolch yn fawr iawn iddi hi am ei gwaith. Oes gwirfoddolwr arall am helpu? Mae'r oriau yn hir, y straen yn fawr, y staff yn ……a'r boddhad yn fawr. Dwi'n gwybod sut mae gwerthu cynnig caredig.

CYFIEITHYDD CYMUNEDOL WRTH FODD MUDIAD MEITHRIN A CHLWB Y BONT

Dyna ni mae mudiadau gwirfoddol a chymdeithasol wedi dysgu bod Cyfieithydd Cymunedol Mentrau Morgannwg Gwent ar gael i weithredu yn rhad ac am ddim iddyn nhw ac am bris rhesymol iawn i gwmnïau a chyrff cyhoeddus hefyd. I ddweud y gwir y mae cymaint o waith cyfieithu gyda Gwynallt Bowen fel ei fod yn chwilio am wirfoddolwyr a chynorthwywyr cyflogedig llaw rydd i'w helpu darparu gwasanaeth.

CICIO AR Y WE AC AR BAPUR

Mae gwasanaeth ieuenctid y Fenter a'r Urdd yn cyhoeddi Ffansin CICIO a gwefan sy'n rhoi manylion diweddaraf y gweithgareddau a man cysylltu â staff ieuenctid sef www.cicio.net ewch ato i weld beth sy'n digwydd.

FFORWM MUDIADAU GWIRFODDOL CYMRAEG YN ELWA AR BROFIAD POLISIAU

Mae swyddogion datblygu prif fudiadau Cymraeg Rhondda Cynon Taf yn dod at ei gilydd mewn gweithdy yn yr YMCA am 2pm ar 29ain Mai i drafod gweithredu polisïau cyfle cyfartal o dan ofal Eleri Griffiths Mudiad Meithrin, iechyd a diogelwch o dan ofal Dyfrig Morgan Yr Urdd a gwirfoddolwyr o dan ofal Rhodri Thomas Interlink. Rhaid yw gweithredu polisïau fel hyn er mwyn llwyddo i ddenu grantiau a chefnogaeth yr awdurdod a chyrff cyllido eraill. Dewch i drafod, cyfrannu a dysgu am weithredu polisïau fel hyn er mwyn llwyddiant eich grwp neu gymdeithas.

Gallaf roi rhaghysbys hefyd am gyfarfod Gorffennaf y Fforwm ar 10fed Gorffennaf sy'n trafod Addysg Gydol Oes.

GWAHODD CERYS MATHEWS I BARTI PONTY

Wel dyna i chi brofiad, dwi'n teimlo fy mod yn nabod asiant Cerys yn dda iawn erbyn hyn. Rydym yn dal yn aros am gadarnhad ond yn byw mewn gobaith y bydd Cerys yn arwain sesiynau Parti Ponty i ni eleni. Ond nid Cerys fydd yr unig berson o bwys yn y parti eleni – mae Martin Geraint, Band Dur Fitsalan, Sêr Radio Cymru ac S4C gyda ni, ac y mae Plant Mudiad Meithrin yn trefnu ymweliad a Sam Tan &co gyda gwisg ffansi – mae'r dysgwyr yn trefnu Helfa Drysor hefyd.

STEFFAN WEBB
PRIFWEITHREDWR
MENTER IAITH

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

SYMUD 'YN NES AT Y BOBOL'
Cynhaliodd Cymdeithas Dai Hafod, un o'r cymdeithasau tai mwya yng Nghymru, ddiwrnod agored yn Ffynnon Taf ar Ebrill 25.

Mae'r swyddfa newydd yn Heol Caerdydd ble gynt bu argraffwyr GPS ac yno mae'r Rheolwr Cylch, Corinna Southall, a naw o staff yn gyfrifol am 1,100 o dai yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf.

"Mae Hafod wedi datganoli'n dair ardal," meddai Mrs Southall. "Y nod yw dod â gwasanaethau fel rheoli a chynnal a chadw'n nes at y cwsmeriaid."

MARW OLWEN JONES
Yn dawel yn Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd, ar Fawrth 27, bu farw Olwen Jones o Dý Rhiw, Ffynnon Taf, gwraig y diweddar Harold, mam Aelfryn a'r diweddar David Anthony, a merch-yng-nghyfraith Pam.

Roedd y gwasanaeth ar Ebrill 5 yng nghapel preifat Tŷ Hebrwng Cwrt y Castell, Trefforest, a'r traddodiant ym Mynwent Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf. Cydymdeimlwn â'r teulu.

MARW GEORGE GRAVENOR
Yn dawel ar Ebrill 18 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, bu farw George Gravenor, Heol Fach, Tawelfryn, Nantgarw, yn 81 oed, gŵr Lill, tad Glenda, tad-yng-nghyfraith Jeff, a thad-cu Gina, Sean a Trudi.

Roedd y gwasanaeth a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Pontypridd, ar Ebrill 26. Cydymdeimlwn â'r teulu.

WYR CYNTA I ROS A LIONEL
Llongyfarchiadau i Stephen a Becky Jeremy ar enedigaeth Daniel ar Fawrth 15.

Stephen yw mab Ros a Lionel Jeremy sy'n byw yn Heol Berry, Gwaelod-y-Garth.

Cafodd Daniel, oedd yn pwyso 6 phwys 14 owns, ei eni yn Ysbyty Cyffredinol Henffordd.

Mae Stephen yn beiriannydd i BT ac roedd Becky'n gweithio yn swyddfeydd y cyngor yn Llanfair-ym-Muallt. Mae'r ddau'n byw yn Eurfron Road yn y dre.

MARW FLORENCE BAIRSTOW
Yn dawel yng Nghartre Nyrsio Neuadd Hengoed, Hengoed, ar Ebrill 14, bu farw Florence Bairstow, gwraig y diweddar Cyril, a mam Marjorie a Michael.

Roedd y gwasanaeth yn Eglwys Iago Sant, Ffynnon Taf, ar Ebrill 22 a chais i bawb yno i beidio â gwisgo dillad du. Roedd y traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Pontypridd. Cydymdeimlwn â'r teulu. Carai'r teulu ddiolch i staff y cartre nyrsio am eu holl ofal.

ESGYRN DAFYDD
Ry'n ni'n dymuno adferiad buan i'r Cynghorydd Bro a Llyfrgellydd Ffynnon Taf, Megan Jones, sy wedi torri asgwrn yn ei throed ar ôl llithro ar y stâr gartre.

Ychydig o wythnosau'n gynt roedd ei mam, Eva Thomas, mewn damwain a thorrodd ei braich a'i choes am yr eildro.

Dymuniadau gorau i'r ddwy.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Mai 5: Gweinidog (Cymun);
Mai 12: Gweinidog; Mai 19: Parchedig Dewi Myrddin Hughes, Cyrddau Mawr yn y bore a'r nos; Mai 26: Gweinidog.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

CYLCH TI A FI Ffynnon Taf: brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GYNRADD GWAELOD-Y-GARTH: Mai 20: Dosbarth 3E yn mynd i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, i weithio ar brosiect Oes y Tuduriaid; Mai 23: Pete Hodge o Gapel y Bedyddwyr, Rhiwbeina, Caerdydd, Gwasanaeth Arbennig; Mai 28: Noson Rhieni Newydd yn yr ysgol am chwech o'r gloch; Mehefin 3: Hanner tymor yn dechrau; Mehefin 10: Tymor yr haf yn dechrau.

Village Trading Post
Pentre'r Eglwys
Popeth ar eich cyfer
Bwyd - diod
off-licence
popty-roliau
01443 218440

Casgliad yr Amgueddfa Yn Nantgarw

Roedd colli'r Amgueddfa Diwydiant a Môr o Gaerdydd yn ergyd i bawb oedd â diddordeb yn hanes datblygiad diwydiannol yr ardal ond mae cyfle o hyd i weld y casgliad a hynny ar garreg ein drws.

Agorwyd canolfan enfawr ar Ystad Ddiwydiannol Nantgarw i gadw ac atgyweirio y trysorau gwerthfawr. Mae'r casgliad yn cynnwys cerbydau rheilfford, ceir, bysiau, loriau, bâd achub a modelau diri. Hefyd mae llyfrgell sylweddol ac archif ffotograffau yr amgueddfa.

Disgwylir i ran o'r casgliad fynd i'r Amgueddfa newydd fydd yn agor yn Abertawe yn 2005 ond fe fydd y ganolfan yn Nantgarw yn aros ac yn cael ei ddatblygu.

Ar hyn o bryd mae croeso i ymweld â'r Ganolfan Casgliadau yn Nantgarw drwy apwyntiad ymlaen llaw rhwng 9.30 a 16.00 ar ddyddiau'r wythnos. Croesewir ymwelwyr ac mae'r mynediad yn rhad ac am ddim. I sicrhau apwyntiad cysylltwch â'r Adran ddiwydiant - Ffôn: 029 20573560 .

Dr David Jenkins, Ceidwad y Casgliad, gyda un o hen dramiau'r brif-ddinas

RHAGLEN HANESYDDOL AR S4C

Ivor Stokes - Curadur Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gyda Huw Thomas Davies 4ydd gor wyr James Grier, a drefnodd y diwrnod yn Llanarthne i fendithio y beddrod a codi cofeb iddo.

Car Benz o 1900 sydd dal yn cael ei yrru yn flynyddol ar ras Llundain -Brighton

Yn 1789 fe ddaeth yr Albanwr a'i deulu i Gymru i weithio i Syr William Paxton yn Neuadd Middleton, Llanarthne (safle presennol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru). Mae ymchwil hanes teuluol wedi dangos bod ei ddisgynyddion dal yn byw yn yr ardal ond hefyd mewn llefydd pellennig fel yr Unol Daleithiau, De'r Affrig ac Awstralia. Priododd James ddwywaith ac roedd ganddo 14 o blant. Felly mae'n debyg fod yna gannoedd o dylwyth nad ydynt yn ymwybodol o'r cyndaid pwysig yma. Fe weithiodd fel tirfesurydd, peiriannydd ac asiant ar brosiectau yn nhref Caerfyrddin, Dinbych y Pysgod ac ar ystad Middleton lle gwelwyd gwelliant yng nghyflwr yr adeiladau fferm, codi Tŵr Paxton ac adeiladu plas ysblennydd a chyfres o erddi dŵr ffurfiol.

Fe fydd y rhaglen ar James Grier (1753 -1814) yn cael ei ddarlledu ar deledu daearol S4C am 18.00 wedi'r newyddion, dydd Llun, 06/05/2002. Hefyd ar loeren Sky 104 neu 184 tu hwnt i Gymru.

Y Gyngres Geltaidd Cynhadledd 2002

Mae aelodau'r Gyngres Geltaidd Ryngwladol yn cwrdd bob blwyddyn mewn un o'r chwe aelod-wlad. Eleni cynhelir y gynhadledd yng Nghymru.

Coleg y Drindod, Caerfyrddin yw'r man cyfarfod, a daw'r Celtiaid ynghyd rhwng **Gorffennaf 22 a 27.**

Thema'r trafodaethau fydd : **Adfer iaith yn y gymuned.** Enwebir siaradwr o bob gwlad .

Daw artistiaid o bob gwlad, hefyd, i gyfrannu at y cyngherddau a'r nosweithiau llawen. Ceir crac a chân , dawns a hwyl drwy gydol yr wythnos.

Gellir cadw lle preswyl yn y coleg, neu fynychu'r gynhadledd drwy dalu ffi dyddiol. Bydd tocynnau'r cyngherddau ar werth i'r cyhoedd.

Am ragor o fanylion, dylid cysylltu â: Gwyneth Roberts, Arwel, 8, Trinity Place, Aberystwyth, SY24 1LT **Ffôn: 01970/615057.**

Cysyllter â : Dr. Eurwen Price, Y Garn, Swansea Rd., Llewitha, Fforestfach, Abertawe, SA5 4NR. Tel: 01792/421315.

DIWEDD Y DIWDIANT GLO

Gyda'r cyhoeddiad fod gwaith golosg y Cwm yn y Beddau yn cau yn yr haf mae cysylltiad hir yr ardal hon â'r diwydiant glo a golosg yn dod i ben.

Mae gwaith golosg y Cwm, a adeiladwyd yn 1957, ar safle pwll glo y Cwm a oedd yn un o rwydwaith o byllau cysylltiedig oedd yn gweithio'r ardal, o Lofa Coedelai i Nantgarw.

Roedd safon y glo yn ardderchog a dyna'r rheswm yr adeiladwyd tri gwaith golosg i gydfynd â'r pyllau glo. Erbyn hyn mae'r gwaith a'r pwll yn Nantgarw wedi eu troi yn barc diwydiannol a cheir peth o'r gweithgarwch yno ar dudalen 15 o'r rhifyn hwn o Tafod Elái. Yn yr un modd mae Coedelai yn cael ei wedd newid fel y gallwch weld ar dudalen saith a nawr daw'r newydd am y Cwm.

Cwm yw'r unig gynhyrchydd o olosg o safon uchel ar gyfer ffwndri ym Mhrydain ac fe'i ddefnyddir ar gyfer nifer o brosesau diwydiannol yn cynnwys puro zinc, gwneud briciau, cynhyrchu siwgr a chynhyrchu haearnau crôm arbennig. Gall y gwaith yn Cwm gynhyrchu golosg yn ôl galw'r cwsmer ac mae'n cynhyrchu 350,000 tunnell y flwyddyn.

Ond oherwydd y lleihad mewn galw am y golosg arbennig mae CPL wedi penderfynu cau'r gwaith gan fygwth swyddi 150 o weithwyr.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymwbodol iawn o'r effaith andwyol fydd hyn yn cael ar yr ardal ac maent yn barod wedi ceisio cynorthwyo cwmni CPL i oresgyn ei broblemau ac yn trefnu gyda ELWa a chyrff eraill i ail-hyfforddi'r gweithlu.

CYCHWYN AR Y GWAITH

Mae Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf wedi dewis Cwmni Jarvis Projects i ddarparu ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg newydd ar safle Garth Olwg fel rhan o gynllun Cyllido Preifat.

SWYDDI GOFAL PLANT YSGOLION CYNRADD LLEOL

ARWEINYDD/CYNORTHWYDD CYMWYS NEU BROFIADOL I HELPU TREFNU A CHYNNAL GWEITHGAREDDAU CHWARAE PLANT

GWAITH ACHLYSUROL AR GAEL I FYFYRWYR BOB DYDD LLUN I GWENER

3:30 - 6:00pm

Tâl: £5.00 - £5.50 yr awr

OS YDYCH YN DYSGU NEU YN SIARAD CYMRAEG, YN MWYNHAU GWEITHIO GYDA PHLANT AC YN CHWILIO AM WAITH ADEG TYMOR YR YSGOL SY'N LLAWN HWYL A SBRI CYSYLLTWCH Â TRYSTAN GRIFFITHS

01443 226386/07971 211206

MENTER IAITH RHONDDA CYNON TAF

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD

Menter Iaith

Y Diwydiant Moduro

Mr Huw Thomas
Golygydd Moduro Y Cymro
6pm Nos Fawrth 14 Mai 2002

Jonathan Jones
Bwrdd Croeso Cymru
Ar 11 Mehefin 2002

Yng Nghanolfan Menter y Cymoedd
Parc Navigation, Abercynon

Cwrs Ymestyn Busnes

6pm Nos Lun 13 Mai - 24 Mehefin
Yng Nghanolfan TEEP, Trefforest

Gwybodaeth bellach: 01443 226386

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Clwb y Dwrlyn

Ar 'bnawn Sul mwya' poeth y flwyddyn eto, cwrddodd oddeutu hanner cant ohonom, yn blant ac oedolion i gerdded ar hyd hen rheilffordd Creigiau. O dan arweiniad Don Llewellyn, hanesydd lleol, cawsom hanes a lluniau o'r hen rheilffordd pan oedd ar ei phrysura' , ac hanes yr ardal rhwng Creigiau a Phentyrch. Roedd y tywydd mor ddymunol, llwyddodd llawer i gerdded i Bentyrch. Gwnaeth rhai o Greigiau hyn, a gorfu iddyn nhw gwblhau'r taith ar eu pen eu hunain. Da iawn chi teulu Morgan a'r Herbertaid! Gwnaeth llawer synnu ar hyfrytwch yr ardal, a dwi'n siwr fydd llawer yn dychwelyd i olrhain y daith unwaith eto. Mawr yw ein diolch i Don Llewellyn wnaeth rhannu ei wybodaeth hanesyddol lleol gyda ni, a thrwy hynny gwneud y daith yn unigryw.

Huws yn Curo Bruno

Na, nid yn y cylch paffio, ond yn Marathon Llundain a hynny o ryw bum munud.

Gorffennodd Rhian Huws, Brynbedw, Penywaun, a redodd yn ei marathon gyntaf, mewn amser teilwng iawn o 4 awr 19 munud, tra roedd Frank, er mawr glod iddo yn rhedeg yn ei drydydd.

Hoffai Rhian ddiolch i bawb yn yr ardal a gyfrannodd tuag at un o elusennau mwyaf haeddiannol Prydain. Nod Rhian oedd casglu £2,000 i Ymchwil Cancr. Yn ôl y cyfri diwethaf tynghedwyd tua £2,100 i'r elusen. Mae llais Rhian i'w glywed yn aml yn darllen y Newyddion ar Radio Cymru.

Adloniant

Hamdden ac Adloniant yw'r llyfr diweddaraf yn y gyfres Garth Domain. Mae'n croniclo digwyddiadau yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf yn cynnwys hwyl y ffair, y Taplas Haf, dramau, Gleemen y Garth, y Fari Lwyd a llawer mwy. Cyfres arbennig o werthfawr.

Y Dwrlyn yn crwydro coedwig Tynycoed

Rhian Huws wedi cwblhau Marathon Llundain mewn amser teilwng iawn

Cylch Cadwgan

Merched y Wawr, Cangen y Garth, oedd yn gyfrifol am drefnu cyfarfod ola Cylch Cadwgan am eleni. Cafodd pawb oedd yn bresennol yn Ysgol Gynradd y Creigiau ar Nos Fercher, 17 Ebrill, wledd wrth wrando ar yr Athro Sioned Davies. Ei thestun oedd "Perfformio o'r Pulpud", ac fe cawsom weld a chlywed sut oedd pregethwyr mawr y gorffennol wedi defnyddio'r pulpud fel llwyfan i fynd i hwyl wrth bregethu.

Soffa 3 sêt lledr gwyrdd tywyll (bottle green) Fel newydd £250

Gwely plentyn, pren pîn gyda 2 drawer a matress newydd sbon. £50

Ffoniwch: 01443 223828 gyda'r hwyr

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

Merched y Wawr

Fe ymunodd Margaret Lloyd Hughes, Pentyrch, ac aelodau eraill o'r rhanbarth, gyda Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, Catrin Stevens, ar ran o'i thaith gerdded noddedig. Diolch i ti Margaret.

Cynhelir cyfarfod nesa'r gangen ar Nos Fercher, 15ed Mai, am 8 o'r gloch yn Neuadd y Pentref, Pentyrch pan fydd Peter a Gill Griffiths yn dod i'n diddanu.

Apêl Olaf
Clwb y Bont?

Agorodd Clwb y Bont ei ddrysau bron i ugain mlynedd yn ôl bellach, ac ers hynny y Clwb sydd wrth wraidd bywyd Cymraeg Pontypridd. Yn yr un degawd, agorodd Clwb Ifor Bach yng Nghaerdydd, a Chlwb Bryn Menyn ym Mhenybont. Tra bod Clwb Ifor Bach yn mynd o nerth i nerth fel Clwb Nos Cymraeg, gorfodwyd Clwb Bryn Menyn i gau ei ddrysau. Mae Clwb y Bont hefyd yn wynebu problemau ariannol. Dau brif achos hyn yw: Yr afon Taf yn achosi llifogydd achlysurol a bod ynghlwm wrth forgais y bragdy

Diolch i sustem atal llifogydd newydd, mae'r Clwb yn saff rhag llif yr afon Taf, ond mae'r Clwb dal i fod ynghlwm wrth forgais y bragdy. Tair blynedd sydd yn weddill (£18,000), ac unwaith bydd y ddyled wedi ei chlirio, bydd y Clwb mewn sefyllfa gref i barhau'r gwaith o hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn yr ardal.

Ond, ar hyn o bryd, mae'r Clwb yn wynebu gwariant uchel iawn.Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Clwb (17/04/02) wynebodd yr aelodau ddau ddewis:-

Ail-forgeisio gan dorri taliadau misol, neu geisio gwaredu'r morgais yn syth. Byddai ail-forgeisio yn golygu bod ynghlwm wrth y bragdy am 10 mlynedd arall, a'r bragdy fyddai'n penderfynu prisiau ac ati, felly penderfynodd yr aelodau geisio gwaredu'r morgais ar unwaith. Golyga hyn y bydd y Clwb yn gwneud elw sylweddol bob blwyddyn, gan obeithio dileu'r angen am apeliadau ariannol pellach.

Penderfynwyd gofyn i aelodau am gyfraniadau, a hefyd gofyn am fenthyciadau o £500.

Os medrwch helpu, un ai drwy fod yn un o'r 36 person i roi benthyciad, neu drwy roi rhodd i'r Clwb, cysylltwch â fi ar 07769 657122 , neu anfonwch at Clwb y Bont, 85A Stryd Taf, Pontypridd.

Gan fod y swm o £500 yn ennill cyn lleied â tua £10 o lôg y flwyddyn, wrth fenthyg y swm hwn i'r Clwb, byddwch yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed mewn awyrgylch gymdeithasol yng Nghymoedd y de. Yn bersonol, credaf fod hwn yn bris bychan i'w dalu. Diolch yn fawr

Geraint Day
Is-Drysorydd Clwb y Bont

Hwyl y côr meibion yn y Clwb

EDWARDS TRAVEL

Teithiau Bws Dyddiol Haf 2002

Gwasanaeth Teithio ym Mhrydain a'r Cyfandir

Dewis helaeth o dripiau un diwrnod yn ystod gwyliau Mehefin a thrwy gwyliau ysgol Gorffennaf ac Awst. Prisiau rhesymol. Mannau codi lleol.

Llundain £15. Sw Bryste £8.
Dinbych y Pysgod neu Oakwood £11. Weymouth £11.50.
Barry £5. Porthcawl £ 6.50. Legoland neu Windsor £13.
A llawer mwy!

Diwrnod i'r Rasus
Casgwent, Ascot, Newbury, Sandown, Worcester.

Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi
Awst 5ed neu Awst 9ed - £12.

Ffoniwch:- Pontypridd 01443 202048
neu cysylltwch a'ch asiant lleol.

Y Ffordd Orau i Fynd i Ffwrdd

GWOBRAU DYLUNIO DWYIEITHOG NEWYDD I'R IFANC

Mae Bwrdd yr Iaith yn galw dylunwyr ifanc led led Cymru i gystadlu am Wobrau Dylunio Dwyieithog 2002. Dyma'r tro cyntaf i'r Bwrdd gyflwyno gwobr, a noddwyd gan Ddylunio Cymru, ar gyfer disgyblion a myfyrwyr.

Mae na ddau gategori - un ar gyfer disgyblion chweched dosbarth ac un ar gyfer myfyrwyr colegau Uwch a Phellach. Anogir dylunwyr ifanc i ddarlunio delwedd gyfoes o Gymru drwy gynhyrchu poster A4 i hybu Cymru fel cyrchfan ar gyfer pobl ifanc dan 25 oed.

Dywedodd Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd, 'Wrth i ymwybyddiaeth o'r iaith ddatblygu ym mhob sector, mae pobl wedi sylweddoli bod mantais bendant i sefydliadau yng Nghymru i hyrwyddo'r iaith drwy gynhyrchu arwyddion dwyieithog. Mae'r gystadleuaeth hon yn ceisio cynnig llwyfan i ddylunwyr ifanc yn ogystal â thynnu sylw byd busnes at botensial dylunio dyfeisgar.'

Yn hyrwyddo rhagoriaeth, ansawdd a dychymyg dylunwyr yng Nghymru, mae'r cynllun gwobrau yn cynnwys pob math o ddylunio – o gyfryngau newydd i becynnu bwyd a diod, ac o hysbysebu i arwyddion. Meddai Gavin Cawood, Uwch Gynghorydd Dylunio, Dylunio Cymru, 'Mae'r gwobrau yn helpu hyrwyddo dylunio dwyieithog o'r safon uchaf a bob blwyddyn fe welir safon yr ymgeiswyr yn codi.'

'Mae dylunio dwyieithog hefyd yn cyrraedd siaradwyr Saesneg a Chymraeg gan ategu tarddiad cynnyrch neu wasanaeth yn ogystal â fod yn gymorth i ddysgu iaith.'
Dydd Gwener 31 Mai 2002 yw'r dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth, a bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn seremoni arbennig fis Gorffennaf nesaf. Mae rhagor o wybodaeth a ffurflen gais ar gael gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Gellir cysylltu â'r Bwrdd ar 029 2087 8000, neu drwy anfon e-bost at gwobrau@bwrdd-yr-iaith.org.uk

AR Y BOCS 2002

Mae cyfres talent S4C, 'AR Y BOCS', ar daith yn edrych am dalent!

A oes gennych chi dalent perfformio arbennig? Ydych chi wrth eich bodd yn canu a dawnsio i gynulleidfa neu o flaen drych yn eich ystafell wely? Dewch i ddangos eich doniau ac efallai mai chi fydd yn perfformio o flaen y gynulleidfa yn y stiwdio y tro hwn.

I drefnu amser penodol neu am fwy o fanylion cysylltwch â ni ar frys yn Ar y Bocs, Alfresco, ffôn 029 20726726 neu e-bost alfresco@alfrescotv.com.

Mi fydd tîm cynhyrchu Ar y Bocs ym mhabell S4C ar faes eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn, 8fed Mehefin 2002 rhwng 2.00 a 4.00 y.p.

Edrychwn ymlaen i glywed ganddoch.

Meinir Mai Jones
Cynhyrchydd

Ar y Bocs, Al Fresco.
44 Heol y Gadeirlan
Caerdydd. CF11 9WJ.





Ar Draws

1) Pethau i'w gwisgo (5)
4) Sumbol Gristnogol (5)
7) Atsain (3)
8) Rhywbeth i'w ddweud ar ddiwedd y dydd (3,2)
9) Esgyd Ceffyl (5)
10) Nid Mwy (3)
12) Edrych yn y gogledd (4)
15) Blodyn coch, cofio? (4)
17) Â blas cas (5)
18) Pwyntiau mewn gêm (4)
20) Ystafell wely (4)
23) Ergyd â throed (3)
25) Pobl wedi trengi (5)
26) Gwahanol, llawer (5)
27) _ _ _ fach yr haf, pilipala (3)
28) Mwy na thref (5)
29) Syth, cymwys, di-oed (5)

I Lawr

1) Benyw, gwraig (5)
2) Bod ar dân (5)
3) Gwybod yr ystyr (4)
4) Cyfrol, adysgrif (4)
5) Cwrdd mewn capel (5)
6) Crybwyll (5)
11) Erwau (5)
13) Cwd (3)
14) Ymyl, ystlys (3)
15) Glofa, _ _ _ glo (3)
16) Cig eidion (3)
18) Mynd i dŷ newydd efallai (5)
19) Nodau, marcia (5)
21) Diffyg gwres (5)
22) Tref ar lan y mor (5)
23) Pos, holiad (4)
25) Hoffi yn fawr iawn (4)

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX erbyn 22 Mai 2002

Cornel y Plant

Sgwâr swyn yw sgwâr o rifau sy'n adio i fyny i'r un cyfanswm ar draws, i lawr ac yn groeslinol.
Mentrwch ar y rhain.

6		
7	5	3

		10
	7	
4		5

11		
	8	
6		5

8	1	6
		7

16		
6		14
8		

12		
	9	
7		6

MAS DRAW

Annwyl Ddarllenwyr,
Ydach chi rhwng 9 a 14 oed? Beth ydach chi'n ei wneud tu allan i furiau'r tŷ? Ydach chi'n barod i fentro MAS DRAW?

O syrffio i sglefrio
O natur i nofio
O gartio i ganŵio

Mae Cwmni Teledu Sianco, angen plant o bob cwr o Gymru i gyfrannu i gyfres newydd gyffrous.

Os am gyfrannu, ffoniwch: 01286 684 201 neu e-bostiwch: masdraw@sianco.demon.co.uk
Neu sgwennwch atom ni.
Gan edrych ymlaen i glywed gennych,

Diolch yn fawr gan griw MAS DRAW.

MAS DRAW
Teledu Sianco
7 Ffordd Segontiwm
Caernarfon
Gwynedd LL55 2LL

www.s4c.co.uk



Dyn ar y Dibyn

PEN TENNYN

9.00PM
BOB NOS SUL
YN DECHRAU 5 MAI
AILDDARLLEDIAD BOB NOS FAWRTH

CYFRES NEWYDD

S4C